



## Dandelion yn datgelu'r artistiaid a'r gweithgareddau cyntaf ar gyfer gŵyl fawr am ddim yn Inverness

- *Gŵyl Dandelion, gŵyl gerddoriaeth a'r celfyddydau am ddim yn yr awyr agored yn dathlu cynaliadwyedd yn cael ei chynnal dydd Gwener 2 – dydd Sul 4 o Fedi*
- *Yr artistiaid yn cynnwys King Creosote, Tank and the Bangas, The Lost Words a mwy!*

Yn dilyn llwyddiant gŵyl agoriadol Dandelion yn Glasgow dros yr haf, mae'r trefnwyr wrth eu boddau i gyhoeddi'r artistiaid cyntaf fydd yn ymddangos ar y llwyfan yn ystod gŵyl Inverness fis Medi gan gynnwys y canwr/cyfansoddwr o'r Alban **King Creosote**, y grŵp roc, ffync a soul a hip-hop **Tank and the Bangas** o New Orleans, a dathliad o gerddoriaeth, llenyddiaeth, iaith a chelf gan **The Lost Words** y gwnaeth eu prosiect **Spell Songs** alw arnom ni i gyd i aildeffro ein cariad at fyd natur a'r gwyllt.

Bydd hefyd perfformiadau gan **Dallahan**, un o'r grymoedd mwyaf gwahanol mewn cerddoriaeth werin ryngwladol, **Sona Jobarteh**, meistr y kora o Gambia, y canwr/cyfansoddwr **Nati Dredd**, y grŵp gwerin Nordig **Dreamers' Circus**, cyn Gerddor Traddodiadol Ifanc y Flwyddyn BBC Radio Scotland **Hannah Rarity**, **The Ross Ainslie & Ali Hutton Trio**, **Scott Matthews** a'r cerddor gwerin **Hamish Napier** y mae ei albwm diweddar *The Woods* yn deyrnged i straeon a threftadaeth yr Ucheldiroedd o le mae'n hanu, yn ogystal â **Band Pibau Ieuencid Cenedlaethol** yr Alban ac **Acibreira**, gyda rhai gwesteion arbennig iawn i'w cyhoeddi cyn yr ŵyl.

Mae'r [ŵyl](#) yn rhan o [Dandelion](#), rhaglen greadigol ddynamig sy'n dilyn y tymor tyfu o fis Ebrill i fis Medi 2022, gan uno cerddoriaeth a chelf â gwyddoniaeth a thechnoleg i ysbrydoli pobl i 'Hau, Tyfu a Rhannu' cerddoriaeth, bwyd, syniadau a straeon. Comisiynwyd Dandelion gan EventScotland ac fe'i hariennir gan Lywodraeth yr Alban ac mae'n rhan o UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU.

Cyfarwyddwr Creadigol gŵyl Celtic Connections fyd-enwog Glasgow sydd wedi casglu'r artistiaid cerddorol sef y cerddor, cyfansoddwr a chynhyrhydd o'r Alban Donald Shaw. Bydd ymwelwyr â gŵyl Inverness yn gweld perfformiadau ar ddau lwyfan – y Pafiliwn o Olau Parhaus a llwyfan Dandelion. Bydd y rhain, a gyflwynir mewn partneriaeth â Celtic Connections, wedi'u lleoli ar safle gŵyl arbennig ym Mharc Cyfarfod Gogleddol, Inverness.

Ynghyd a'r rhaglen o gerddoriaeth, bydd yr Ŵyl yn cynnwys sesiynau gan wyddonwyr, cogyddion, artistiaid ac ymgyrchwyr arweiniol ar gynaliadwyedd, gweithredu ar yr hinsawdd a thlodi bwyd ym mhobell y Hothouse ychydig y tu allan i'r parc ar dir Eden Court.

Bydd hefyd gweithgareddau creadigol ym mhob rhan o'r safle yn Siediau Potio pwrpasol Dandelion a bydd gweithgareddau i'r teulu yn cynnwys ardal y feithrinfa i blant dan 5 a bydd bwyd a diod lleol ar gael gan amryw o werthwyr cynaliadwy. Bydd yr Ŵyl yn agor fore Gwener gyda rhaglen o weithgareddau yn arbennig ar gyfer ysgolion a phobl ifanc.

Yn ganolbwynt i safle'r wyl bydd y 'Pafiliwn o Olau Parhaus' anhygoel, gosodiad celf 10 metr o daldra trawiadol a'r prif lwyfan. Mae'r Pafiliwn wedi ei greu o chwe deg o giwbiau tyfu carlam 1m x 1m sydd wedi'u creu yn arbennig ar gyfer rhaglen Dandelion, wedi'u gosod gyda'i gilydd i greu strwythur enfawr â llwyfan yn rhan ohono, fydd yn gefnlen 'fyw' i berfformiadau.

**Dywedodd Cyfarwyddwr Cerdd Dandelion, Donald Shaw:** "Gallwn ni ddim aros i gynnal ail ran Gŵyl Dandelion. Mae llawer iawn o gyffro ymhlith ein tîm ond hefyd ymhlith y cyhoedd, yn enwedig ar ôl llwyddiant ysgubol yr wyl a gynhaliwyd fis diwethaf yn Glasgow lle y gwnaethom groesawu 44,000 o bobl i Barc Kelvingrove.

"Fel y tro diwethaf, mae gan yr holl gerddorion sy'n rhan o'n harlwy angerdd dros werthoedd Dandelion, gan rannu ein credoau mewn amgylcheddiaeth a'r hyn y gall unigolion ei wneud yn wyneb yr argyfwng hinsawdd. Mae'n ffordd wych o ddod â phob at ei gilydd gan hefyd fynd i'r afael â materion cymdeithasol ac amgylcheddol pwysig.

"Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at oleuo y Parc Cyfarfod Gogleddol â'n 'Pafiliwn o Olau Parhaus' gan addysgu a diddanu pawb sy'n galw heibio. Mae'n argoeli i fod yn benwythnos gwych arall."

**Dywedodd Marie Christie, Pennaeth Datblygiad VisitScotland:** "Mae'n wych gweld yr artistiaid a'r gweithgareddau cyntaf yn cael eu datgelu ar gyfer Gŵyl Dandelion fydd yn cael ei chynnal yn Inverness fis Medi. Yn dilyn llwyddiant yr wyl yn Glasgow fis Mehefin, mae hwn yn gyfle rhagorol arall i ymwelwyr a chymunedau lleol ddod at ei gilydd, manteisio ar y rhaglen greadigol am ddim a gynigir, a rhannu profiadau bythgofiadwy.

"Mae'r Alban yn un o'r lleoedd gorau yn y byd i gael profiad o ddigwyddiadau byw, ac rydym wrth ein boddau i gefnogi prosiect ysbrydoledig, pellgyrhaeddol sy'n uno cerddoriaeth a chelf â gwyddoniaeth a thechnoleg, a hefyd yn ein hannog i feddwl yn gadarnhaol am sut y gallwn ni i gyd chwarae ein rhan wrth lunio dyfodol cynaliadwy."

Dywedodd Martin Green, Prif Swyddog Gweithredol UNBOXED: "Mae hi wedi bod yn wych gweld digwyddiadau Dandelion yn cael eu cyflwyno ledled yr Alban dros y misoedd diwethaf ac roedd yr wyl yn Glasgow yn hyfryd, gan ddenu torfeydd mawr drwy gydol y penwythnos ym mis Mehefin. Mae arlwy Inverness yn edrych yn dda iawn hefyd, o'r gerddoriaeth i'r gweithgareddau tyfu. Bydd rhywbeth ar gyfer pobl o bob oed, a bydd yn rhan allweddol o weithgareddau UNBOXED sy'n cael eu cynnal ledled y DU fis Medi."

Cewch fynd i Wyl Dandelion am ddim ac nid oes tocynnau. I gael rhagor o wybodaeth am yr wyl neu raglen lawn Dandelion ewch i [dandelion.scot](https://www.dandelion.scot).

Cyhoeddir y rhaglen lawn yn hwyrach ym mis Awst.

*DIWEDD –*

#### **NODIADAU I'R GOLYGYDDION**

Mae lluniau ar gael i'w lawrlwytho yma: <https://spaces.hightail.com/space/Jw2moulhE6>

#### **GŴYL DANDELION – PARC CYFARFOD GOGLEDDOL, INVERNESS**

Dydd Gwener 2 Medi 10.00 - 22.00  
Dydd Sadwrn 3 Medi 11:00 - 22.00  
Dydd Sul 4 Medi 11:00 - 18.00  
(Yn amodol ar drwydded)

## CYSYLLTIADAU Â'R CYFRYNGAU

I gael rhagor o wybodaeth am Dandelion a lluniau cysylltwch â: [dandelion@mucklemedia.co.uk](mailto:dandelion@mucklemedia.co.uk) / 0131 228 9713

### YNGLŶN Â DANDELION:

- Mae *Dandelion* yn rhaglen greadigol uchelgeisiol sy'n cael ei chynnal o fis Ebrill i fis Medi 2022 ledled yr Alban, yn dangos pŵer gweithredu ar y cyd mewn menter fawr 'tyfu eich hun'. Nod y prosiect yw gwneud tyfu eich bwyd eich hun mor hawdd a hygyrch â phosibl i bobl o bob oed gyda digwyddiadau a gweithgareddau'n cael eu cynnal ledled yr Alban - o'r ynysoedd mwyaf anghysbell i ganol dinasoedd – gan gynnwys gwyliau, digwyddiadau, gweithdai, gosodiadau, sgysiau, cerddoriaeth, a choginio, gan gyrraedd cynulleidfaoedd ledled y byd drwy ffilmiau ar-lein, a gweithgareddau digidol. Ym mis Medi, mae'r gweithgareddau hyn yn arwain at gannoedd o wyliau cynaeafu ledled y wlad, gan ail-ddychmygu'r dathliad traddodiadol hwn ar gyfer yr 21ain ganrif.

- Crëwyd *Dandelion* gan aelodau tîm sydd wedi'u lleoli ledled yr Alban gan gynnwys Cosmo Blake, Sustrans; Fiona Burnett, Coleg Gwledig yr Alban (SRUC); Neil Butler, Wrap The World; Fiona Dalgetty, Fèis Rois; Angus Farquhar, Aproxima Arts; James Johnson, getMade Design; Pàdrraig Morrison, cerddor a chrofftwr; Tanveer Parnez, BEMIS Yr Alban; Donald Shaw, Celtic Connections; Nicola Strachan, Sefydliad James Hutton; Caroline Thompson, Arbenigwr Cynhwysiant a Gwerthuso.

- Wedi'i gomisiynu gan EventScotland a'i ariannu drwy Lywodraeth yr Alban, *Dandelion* yw cyfraniad yr Alban i *UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU*.

- I gael rhagor o wybodaeth ewch i [www.dandelion.scot](http://www.dandelion.scot) ac ymunwch â'r sgwrs ar [instagram.com/dandelionscot](https://www.instagram.com/dandelionscot), [facebook.com/DandelionScot](https://www.facebook.com/DandelionScot), a [twitter.com/DandelionScot](https://twitter.com/DandelionScot).

### YNGLŶN AG UNBOXED: CREADIGRWYDD YN Y DU

Mae **UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU** yn ddathliad o greadigrwydd sy'n digwydd ledled y DU yn 2022, gyda'r nod o gyrraedd miliynau a dod â phobl at ei gilydd. Mae'n cynnwys digwyddiadau, gosodiadau a phrofiadau digidol sydd ar gael yn fyd-eang ar raddfa fawr am ddim, yn arddangosfa fwyaf uchelgeisiol y DU o gydweithredu creadigol. Wedi'i gynhyrchu gan rai o'r meddyliau mwyaf disglair mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, y celfyddydau a mathemateg, mae UNBOXED yn cynnwys deg prosiect creadigol aml-safle a digidol sylweddol sy'n rhannu syniadau a phosibiliadau newydd ar gyfer y dyfodol. Cynhelir digwyddiadau a gweithgareddau rhwng 1 Mawrth a 2 Hydref 2022 – o Ynysoedd Heledd i Dover ac o Omagh i Abertawe, ac ar draws cyfryngau traddodiadol ac ar-lein. Mae UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU yn cael ei ariannu a'i gefnogi gan bedair llywodraeth y DU ac wedi'i gomisiynu a'i gyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Belfast, Cymru Greadigol a EventScotland.

Ymysg y prosiectau eraill a gyflwynwyd yn yr Alban yn ogystal â Dandelion mae [About Us](#) (digwyddiad agoriadol UNBOXED yn Paisley ar 1 Mawrth), [Dreamachine](#) (Caeredin), [Green Space Dark Skies](#) (Parc Cenedlaethol Cairngorms), a [StoryTrails](#) (Dundee a Dumfries).

I gael rhagor o wybodaeth am UNBOXED a'r 10 prosiect, ewch i [www.UNBOXED2022.uk](http://www.UNBOXED2022.uk)

## YNGLŶN AG EVENTSCOTLAND

• Mae EventScotland yn gweithio i wneud yr Alban yn llwyfan perffaith ar gyfer digwyddiadau. Trwy ddatblygu portffolio cyffrous o ddigwyddiadau chwaraeon a diwylliannol, mae EventScotland yn helpu i godi proffil rhyngwladol yr Alban a rhoi hwb i'r economi drwy ddenu mwy o ymwelwyr. I gael rhagor o wybodaeth am EventScotland, ei raglenni cyllid a'i newyddion diweddaraf am ddigwyddiadau, ewch i [www.EventScotland.org](http://www.EventScotland.org). Dilynwch EventScotland ar Twitter [@EventScotNews](https://twitter.com/EventScotNews).

• Mae EventScotland yn dîm o fewn Cyfarwyddiaeth Digwyddiadau VisitScotland, y sefydliad twristiaeth cenedlaethol sy'n marchnata'r Alban fel cyrchfan twristiaeth ledled y byd, yn rhoi cymorth i'r diwydiant twristiaeth ac yn dod â thwf twristiaeth gynaliadwy i'r Alban.

• Mae EventScotland wedi comisiynu Dandelion ar ran Llywodraeth yr Alban.

• I gael rhagor o wybodaeth am VisitScotland, ewch i [www.visitscotland.org](http://www.visitscotland.org) neu i gael gwybodaeth i ddefnyddwyr am yr Alban fel cyrchfan i ymwelwyr ewch i [www.visitscotland.com](http://www.visitscotland.com).

Ariennir **UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU** gan:

Funded by



Delivered in partnership with



## Ynglŷn â Celtic Connections

• Dechreuodd Celtic Connections ym 1994, pan gynigodd 66 o ddigwyddiadau mewn un lleoliad. Ers hynny, mae wedi tyfu'n fwy anturus, arbrofol ac amrywiol bob blwyddyn a bellach mae'n cynnig cannoedd o ddigwyddiadau mewn lleoliadau ledled Glasgow. [www.celticconnections.com](http://www.celticconnections.com)

[Partner Cerddoriaeth Dandelion:](#)

